Hawdd ei Ddeall

# Adroddiad cardiau Hynt

## Pa wahaniaeth y mae cerdyn Hynt wedi'i wneud i bobl a lleoedd




Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Creu Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **Adroddiad Effaith Hynt gan Milestone Tweed**.

**Tachwedd 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae’r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 24**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Creu Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** https://creucymru.com/cy

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.**

# Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma ........ 2

Am Hynt ........ 4

Am yr adroddiad yma ........ 8

Beth rydyn ni wedi ei ddysgu ........ 10


Effaith gymdeithasol Hynt ........ 14

Beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio ........ 15

Argymhellion ........ 18

Geiriau Anodd ........ 24

# Am Hynt



Nod Hynt ydy gwneud y celfyddydau yng Nghymru yn fwy **hygyrch** i:

- Pobl fyddar
- Pobl anabl
- Pobl niwroamrywiol. Er enghraifft, pobl awtistig.




Mae **hygyrchedd** yn meddwl rhywbeth mae pawb yn gallu ei ddefnyddio. Beth bynnag ydy eu hanghenion.



Mae Hynt yn gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau ar draws Cymru.



Mae Hynt yn cefnogi pobl ag **anghenion mynediad** i fwynhau'r celfyddydau.

Mae **anghenion mynediad** yn rhywbeth y mae person ei angen i allu cymryd rhan. Er enghraifft:



- Gofalwr i'ch cefnogi i fynd i'r theatr.



- Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain. Pan fydd rhywun yn nodi beth sy'n cael ei ddweud. Ar gyfer pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.



- Capsiynau wedi’u cau. Dyma pryd mae geiriau llafar yn cael eu hysgrifennu i lawr. Felly, mae pobl yn gallu darllen beth sy'n cael ei ddweud.

**Hynt ydy:**




- Cerdyn mae pobl yn gallu ei ddefnyddio i gael tocynnau am ddim i ofalwyr neu gynorthwywyr personol.



- Gwefan sy'n rhoi gwybodaeth am sioeau **hygyrch** yng Nghymru. Ac yn rhoi gwybodaeth i chi am leoliadau. Er enghraifft, faint o risiau sydd yno. Neu a oes rampiau ar gael.



- Rhaglen hyfforddi. Rydyn ni yn hyfforddi staff mewn theatrau a chanolfannau celf i wella **hygyrchedd**.

Fe wnaeth **Cyngor Celfyddydau Cymru** ddechrau Hynt. Mae'n cael ei reoli gan **Creu Cymru**.



Mae **Creu Cymru** yn gweithio gyda **Diverse Cymru** i ddarparu Hynt.



Mae gan **Creu Cymru 1** aelod o staff sy'n rheoli Hynt o ddydd i ddydd.

## Am Creu Cymru

Mae **Creu Cymru** yn elusen sy'n cynnwys aelodau.



Mae ein haelodau yn lleoedd fel theatrau a chwmnïau celf. A hefyd pobl sy'n gwneud y celfyddydau perfformio ac yn cynnal sioeau.



Rydyn ni yn gweithio gyda'n gilydd i wneud y celfyddydau perfformio yn well yng Nghymru.

# Am yr adroddiad yma



Roedden ni eisiau darganfod pa wahaniaeth  mae cerdyn Hynt wedi'i wneud yng Nghymru.



Fe wnaethon ni ymchwil rhwng mis Mai 2022 a mis Ebrill 2023.



Rydyn ni wedi siarad â:

- Deiliaid cardiau Hynt
- Gofalwyr a chynorthwywyr personol
- Lleoliadau Hynt
- Partneriaid Hynt
- Pobl sydd ag anghenion mynediad ond sydd ddim yn defnyddio Hynt



Rydyn ni yn cynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws. Fe wnaethon ni ofyn iddyn nhw pa wahaniaeth roedd Hynt wedi ei wneud iddyn nhw.




Mae’r adroddiad yma wedi cael ei ariannu gan **Gyngor Celfyddydau Lloegr**.






# Beth rydyn ni wedi ei ddysgu

## Mwynhau'r celfyddydau

Fe ddywedodd deiliaid cardiau Hynt:



- Fe wnaeth Hynt wella eu mynediad i'r celfyddydau.



- Fe fyddai'r rhan fwyaf yn mynd i'r theatr yn llai aml heb eu cerdyn. Fyddai rhai ddim yn mynd o gwbl.



- Mae Hynt yn gwneud mynd i'r theatr yn fwy fforddiadwy.



- Mae Hynt yn gwella eu mynediad  corfforol i leoliadau.



- Dywedodd hanner eu bod yn fwy abl i ddilyn a deall perfformiadau.

# Gwella ansawdd bywyd

Dywedodd deiliaid cardiau Hynt:



- Dywedodd y rhan fwyaf fod Hynt wedi gwneud eu bywydau yn well.



- Dywedodd dros hanner bod cael cerdyn Hynt wedi gwella eu hyder.



- Dywedodd y rhan fwyaf bod cael cerdyn Hynt wedi eu helpu i fod o gwmpas pobl yn amlach.



- Dywedodd y rhan fwyaf bod cael cerdyn Hynt wedi eu helpu i gael gwell perthynas â phobl.



- Dywedodd y rhan fwyaf bod cael cerdyn Hynt wedi ei gwneud hi'n haws gofyn i ffrind fynd gyda nhw i'r theatr.

# Gofalwyr a chynorthwywyr personol



Mae llawer o bobl sy'n cefnogi deiliaid cardiau Hynt yn ofalwyr di-dâl.



Dywedodd y rhan fwyaf eu bod wedi teimlo'n unig wrth fod yn ofalwr.



Mae mwy na 1 miliwn o ofalwyr di-dâl yn byw mewn tlodi.



Dywedodd y rhan fwyaf o ddeiliaid cardiau Hynt fod Hynt wedi gwneud y theatr yn fwy fforddiadwy i ffrindiau a theulu.

# Lleoliadau



- Mae deiliaid cardiau Hynt yn ymweld â theatrau mwy.



- Roedd 144 mil yn fwy o ymweliadau theatr ar draws Cymru. Roedd hanner yr ymweliadau hyn yn docynnau pris llawn.




- Dywedodd ychydig dros hanner deiliaid cardiau Hynt eu bod wedi ymweld â lleoliad newydd.



- Mae lleoliadau'n gwneud £23.53 ar bob tocyn am ddim y maen nhw yn ei roi i ddeiliaid cardiau Hynt.



- Mae ardaloedd lleol o amgylch lleoliadau Hynt hefyd yn elwa. Mae Hynt yn dod â dros £3 miliwn i ardaloedd lleol bob blwyddyn.

# Effaith gymdeithasol Hynt



Rydyn ni yn edrych ar werth cymdeithasol. Dyma faint o werth sydd gan gerdyn Hynt i bobl a lleoedd.



Mae Hynt yn gwneud gwerth dros £24 miliwn o bunnoedd o werth cymdeithasol bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys:

- £494 ar gyfer pob deiliad cerdyn.
- £129 ar gyfer pob gofalwr neu gynorthwyydd personol.
- £42.33 ar gyfer lleoliadau, am bob tocyn y maen nhw yn ei roi i ffwrdd.
- £23.53 yn ychwanegol gan bobl sy'n prynu pethau eraill mewn lleoliadau, am bob tocyn maen nhw'n ei roi i ffwrdd.
- Dros £3 miliwn ar gyfer ardaloedd lleol bob blwyddyn oherwydd Hynt.



Am bob £1 sy'n cael ei gwario ar Hynt, mae'n £6.05 i bobl a lleoedd.

# Beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio

## Beth sy'n gweithio i ddeiliaid cardiau a'u gofalwyr



- Mae pob person ar draws Cymru, o wahanol ardaloedd yn defnyddio Hynt.



- Mae tocynnau am ddim yn gwneud mynd i'r theatr yn fwy fforddiadwy.



- Mae gan ddeiliaid cardiau Hynt well mynediad corfforol i leoliadau. Maen nhw'n gallu dilyn a deall perfformiadau yn haws.



- Mae pobl yn llai unig ac mae eu llesiant yn gwella.

# Beth sydd yn gallu bod yn well i ddeiliaid cardiau a gofalwyr




- System archebu well.



- Hyrwyddo'r wefan fel bod mwy o bobl yn gwybod am Hynt.



- Mwy o wybodaeth am sut mae Hynt yn gweithio.



- Mwy o bobl yn gweithio ar Hynt.



- Mwy o arian ar gyfer Hynt.

# Beth sy'n gweithio i leoliadau



- Mae lleoliadau'n cael cynulleidfaoedd newydd yn cynnwys pob person gwahanol.




- Mae lleoliadau'n gwybod yn union beth mae pob deiliad cerdyn Hynt ei angen.




- Mae lleoliadau'n gwneud £23.53 yn ychwanegol gan bobl sy'n prynu pethau eraill mewn lleoliadau, am bob tocyn maen nhw'n ei roi i ffwrdd.

# Beth sydd ddim  yn gweithio i leoliadau



- Mae angen gwell cyfathrebu â Hynt ar leoliadau.



- Mwy o hyfforddiant a chefnogaeth gan Hynt fel bod lleoliadau yn gallu gwella.

# Argymhellion

## Sut mae Hynt yn gweithio ac yn cael ei redeg



- Fe ddylai Hynt feddwl am sefydlu grŵp i weithio drwy'r argymhellion hyn.



- Sefydlu cyfarfodydd gyda phartneriaid Hynt i siarad am sut rydyn ni yn gweithio gyda'n gilydd.




- Sefydlu rheolau a gweithdrefnau ar gyfer rhedeg cynllun Hynt.



- Cael mwy o staff yn gweithio ar Hynt.





- Meddwl am ail-lansio cynllun Hynt gwell.


# Sut mae pobl yn gwneud cais am gerdyn Hynt



- Edrych a diweddaru pwy sydd yn gallu gwneud cais am gerdyn



- Gweithio gyda deiliaid cardiau i wella sut mae pobl yn gallu gwneud cais.




- Diweddaru gwybodaeth am sut i wneud cais. Gwneud yn siŵr ei bod hi'n hawdd i bobl ddarganfod, defnyddio a deall.




- Gosod dyddiad ar gyfer pryd y mae'n rhaid i aelodau Hynt ddiweddaru eu manylion.

# Hyrwyddo Hynt



- Ysgrifennu a chynnal cynllun ar gyfer hyrwyddo Hynt.



- Defnyddio aelodau **Creu Cymru** a phartneriaid Hynt i hyrwyddo Hynt.




- Gwella'r wefan.



- Meddwl am wneud mwy o waith i edrych ar sut y mae Hynt yn gallu gweithio orau.

# Edrych ar pa mor dda mae Hynt yn gweithio



- Casglu gwybodaeth am bwy sy'n dod yn ddeiliaid cardiau Hynt.



- Dod o hyd i ffyrdd o fesur pa mor dda y mae Hynt yn gweithio i bobl a lleoliadau.




- Dechrau arolygon ar gyfer deiliaid cardiau a lleoliadau Hynt. Rydyn ni wedyn yn deall eu hanghenion a'u meddyliau'n well.

# Lleoliadau



- Siarad â lleoliadau a gweithio gyda nhw'n agosach.



- Cefnogi lleoliadau i feddwl am brofiad deiliaid cardiau Hynt ym mhopeth y maen nhw yn ei wneud.




- Gweithio gyda darparwyTocynnau i gefnogi'r holl gwsmeriaid i archebu tocynnau ar-lein.

# Cyngor Celfyddydau Cymru



- Fe ddylai Cyngor Celfyddydau Cymru feddwl am sut mae Hynt yn cael ei ariannu. Fe ddylai'r arian fod am 3 i 5 mlynedd ar y tro.



- Meddwl am beth arall maen nhw yn gallu ei wneud i gefnogi Hynt.

# Geiriau Anodd

### Anghenion mynediad

Mae anghenion mynediad yn rhywbeth y mae person ei angen i allu cymryd rhan. Er enghraifft:

- Gofalwr i'ch cefnogi i fynd i'r theatr.
- Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain. Pan fydd rhywun yn nodi beth sy'n cael ei ddweud. Ar gyfer pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.
- Capsiynau wedi eu cau. Dyma pryd mae geiriau llafar yn cael eu hysgrifennu i lawr. Felly, mae pobl yn gallu darllen beth sy'n cael ei ddweud.

### Hygyrch

Mae hygyrchedd yn meddwl rhywbeth mae pawb yn gallu ei ddefnyddio. Beth bynnag ydy eu hanghenion.